

**Dysgu yn yr
Awyr Agored
Cymru**

**Outdoor
Learning
Wales**



Newyddlen Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru Mawrth 2015

Mae Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru yn rhwydwaith cenedlaethol sy'n manteisio ar arbenigedd, gwybodaeth ac ysbrydoliaeth amrywiaeth o bartneriaid, arweinwyr ac addysgwyr. Nod Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru yw cynyddu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a'r defnydd cynaliadwy o amgylchedd naturiol Cymru.

Nod y newyddlen hon yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n haelodau yng Nghymru am newyddion, prosiectau a mentrau sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddysgu yn yr Awyr Agored:

Newyddion gwych am chwe grŵp rhwydwaith ledled Cymru!

Yn sgil cylch ariannu mis Chwefror mae'r grwpiau hyn wedi gwneud cais llwyddiannus am grantiau prosiect i ddarparu amrywiaeth eang o weithgareddau lleol. Mae prosiectau i ennyn diddordeb dysgwyr mewn amaethyddiaeth i amgylcheddau arfordirol wedi cael eu cymeradwyo, gan ddangos bod cylch ehangach Dysgu Awyr Agored Cymru wedi cael ei dderbyn gan yr aelodaeth. Gobeithio y byddwn yn gallu rhoi'r newyddion diweddaraf i chi am hynt y prosiectau cyffrous hyn unwaith y byddant wedi cychwyn.

www.outdoorlearningwales.org

Cofiwch fod gan Ddysgu yn yr Awyr Agored Cymru grŵp Facebook a chyfrif Twitter.

Y wybodaeth ddiweddaraf am Dîm Addysg Cyfoeth Naturiol Cymru:

Cynhaliwyd digwyddiadau wythnos o hyd ynglŷn â chynaliadwyedd i ysgolion uwchradd a chynradd yn y gogledd a'r de ym mis Mawrth, er mwyn dangos rhai o'r gweithgareddau cynaliadwyedd a ddatblygwyd gan y tîm addysg. Roedd y sesiynau hyn yn rhai ymarferol ac roedd y gweithgareddau yn rhoi cyfle i ddisgyblion ganfod cysylltiadau rhwng yr amgylchedd ac effaith ymddygiad dynol.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn treialu sesiynau ynni adnewyddadwy, sesiynau ynglŷn ag achosion llifogydd ac ansawdd dŵr. Mae addysgwyr hefyd wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau DPP am amrywiaeth o bynciau o lythrennedd yn yr awyr agored i wyddoniaeth amgylcheddol.

I gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd hyfforddi sydd ar y gweill gan y tîm, cysylltwch â sarah.jones@naturalresourceswales.gov.uk



Dyfyniad y mis

"And this, our life, exempt from public haunt, finds tongues in trees, books in the running brooks, sermons in stones, and good in everything."

William Shakespeare

Ffaith y Mis

A wyddoch fod ceffylau yn defnyddio ystumiau i gyfathrebu â'i gilydd?

Enw torfol y mis

Gwâl o foch daear

Gweithgaredd y Mis

Wyau Wedi'u Lliwio'n Naturiol



Er mwyn paratoi'r lliwur bydd angen tua 400g o:
Bresychen borffor - wedi'i thorri'n ddarnau
Betysen - wedi'i thorri'n ddarnau
Crwyn winwns coch
Crwyn winwns melyn
Llus duon bach

Gallwch hefyd ddefnyddio:
2 lwyaid bwrdd o baprica
2 lwyaid bwrdd o dyrmerig

Bydd hefyd angen digon o wyau wedi'u berwi nes eu bod yn galed er mwyn i bob plentyn roi cynnig ar sawl un, os nad pob un, o'r lliwrau.

Rhowch bob un o'r pethau hyn mewn 480ml o ddŵr ynghyd ag 1 llwyaid te o halen a'u berwi am tua 10-15 munud.

Hidlwch y dŵr a'i roi mewn jar neu bowlen ac ychwanegwch 1 llwyaid bwrdd o finegr gwyn i bob lliwur.

Gadewch i'r rhain oeri cyn eu defnyddio.

Rhowch orchudd plastig a/neu bapur dros eich bwrdd oherwydd gall pethau fynd ychydig yn flêr!

Rhowch yr holl liwrau mewn cwpanau plastig bach ac ysgrifennwch enw'r lliwur ar y cwpan.

Defnyddiwch lwyau plastig i roi'r wyau yn y cwpanau a'u tynnu allan, gan eu gadael am tua phum munud, ac edrychwch i weld beth sy'n digwydd.

Nid yw lliwrau naturiol yn lliwio mor gyflym nac mor gryf â lliwrau siop felly bydd angen i chi fod yn amyneddgar os ydych am gael lliwiau mwy llachar. Er mwyn cael lliwiau llachar efallai y bydd angen i chi adael yr wyau yn y lliwur am awr neu fwy. www.yourhomebasedmom.com

Planhigyn y Mis

Dail y gloriau neu'r gellesg drewllyd

Iris foetidissima

Peidiwch â gadael i'r enw eich dychryn! Mae'r planhigyn hardd hwn, sy'n blanhigyn lluosflwydd bytholwyrdd, yn frodorol i Brydain ac mae hefyd i'w weld yng Ngogledd Affrica a gorllewin a de Ewrop lle mae'n tyfu mewn coedwigoedd agored a llaith, ardaloedd cysgodol ac mae'n hawdd ei dyfu mewn pridd gardd arferol. Gydag oedran, mae'n mynd yn gynyddol wydn yn ystod cyfnodau sych, felly mae'n ddewis da ar gyfer mannau cysgodol sych hefyd. Gall oddef amodau arfordirol ac mae'n ddewis da ar gyfer clogwyni sy'n edrych dros y môr. Mae'r ellesgen fytholwyrdd hon yn tyfu'n dda mewn cysgod cymedrol ond mae hefyd yn ffynnu yn llygad yr haul. Nid yw ei ddail bytholwyrdd mawr ar ffurf cleddyfau yn crino fel y gwna'r rhan fwyaf o fathau eraill o ellesg

Gall y blodau amrywio o ran lliw o borffor pŵl ag ychydig o felyn i felynwyn gyda gwythiennau tywyllach, yn dibynnu ar leoliad cyffredinol y planhigyn a lefelau pH y pridd. Fel arfer mae'n blodeuo ar ddechrau'r haf ac wedyn yn datblygu'n goden o aeron oren llachar yn ystod yr hydref. Mae'r aeron diddorol hyn yn para drwy gydol y gaeaf. Defnyddir hadlestri a hadau'r blodau aeddfed wedi'u sychu mewn trefniadau o flodau sychion. Mae'r hadau hefyd wedi cael eu defnyddio yn y gorffennol fel sylwedd amgen, amheus yn lle coffi.

Mae gan y planhigyn wreiddgyffion trwchus, ymledol a gellir ei dyfu o'r hadau neu drwy rannu'r gwreiddgyffion hyn. Gall yr hadau gymryd bron dwy flynedd i egino a dylid eu plannu yn ystod yr hydref, cyn gynted ag y bydd yr hadau wedi aeddfedu. Dylid plannu'r gwreiddgyffion ychydig o dan y pridd mewn lleoliad lled-gysgodol.

Nid yw'r blodau i gyd yn agor ar yr un pryd, felly maent fel petaent yn para'n hirach na llawer math arall o ellesg hefyd. Mae pob blodeuyn yn dechrau troi'n goden ar ôl ychydig o ddyddiau yn unig. Mae'r hadlestri wedi torri yn gwneud toriadau da i'w cynnwys mewn tusw ac fel toriadau maent yn para hyd yn oed yn hwy nag y byddent yn yr ardd.

Mae'r dail yn hir ac yn gul, ac mae'r planhigyn yn tyfu mewn clystyrau gan gyrraedd hyd at 1-3 troedfedd o uchder.

Mae gan y dail wedi'u malu arogl 'cig eidion rhost' cas ac nid yw'r blodau yn arogl'n ber gyda'r nos.



Rhybudd – gall pob rhan o'r planhigyn hwn fod yn wenwynig. Mae'r coesyndau o dan y ddaear yn wenwynig a gallant achosi cyfog a dolur rhydd. Gall y sudd achosi llid y croen a phothelli. Gall hefyd fod yn wenwynig i anifeiliaid sydd fel arfer yn ei osgoi oherwydd ei arogl p'un ai'n ffres neu wedi sychu.



Mae llawer o enwau ar y planhigyn mewn ieithoedd gwahanol, gan gynnwys: Adder's mouths, Bloody bones, Blue devil, Blue seggin, Dabiduba (Bengali), Dadmari (Hindi), Dagger-flower, Dragon-flower, Dragon's tongue, Fetid iris, Field lily, Flag, Foetid gladwyn, Gladden, Gladding-root, Gladdon, Glader, Gladin, Gladwin, Gladwine, Gladwyn, Glaive lily, Gliei (Ffrangeg Ynysoedd y Sianel), Iris, Iris puant (Ffrangeg), Lever, Lirio fetido (Sbaeneg), Lirio fétido (Portiwgaleg), Poison berries, Ricottaria (Eidaleg), Roast beef plant, Scarlet-seeded iris, Seggin, Snake fiddles, Snake's food, Snake's meat, Snake's poison, Spurge plant, Spurgewort, Stinking gladdon, a Stinking gladwyn. Yn

Gymraeg mae'r enwau arno yn cynnwys dail cyllyll, cleddflys a gleiflys.

Daw foetidissima o'r gair Lladin foeteo (drewi, arogl'n ddrwg) sy'n golygu 'drewllyd iawn'.

O ran defnydd meddygol, cyfeirir at y planhigyn yng ngwaith yr athronydd Groegaidd, Theophrastus (c.372-c.287 CC). Yn India caiff ei ddefnyddio i drin y darwden. Heddiw, prin iawn yw'r defnydd o'r planhigyn yn Ewrop at y clefyd hwnnw ond, fel rhywogaethau eraill o ellesg, roedd y planhigyn yn arfer cael ei gymryd fel carthlyn (câi'r gwreiddyn ffres ei fwydo mewn cwrw) a byddai hefyd yn cael ei rhoi ar ffurf trwythiad er mwyn trin anhwylderau'r nerfau, a lleddfu poenau a chlymau gwythi.

www.plantingflowerbulbs.com

www.plantlife.org.uk

Rysâit y mis

Mae'r 'toesenni tân gwerysll' hyn yn hawdd iawn i'w gwneud.

Paratowch gyteu drwy ddefnyddio:

- 70g o fenyn
- 500g o flawd plaen
- 1 llwyaid o bowdr codi
- 70kg o siwgr
- 1 wy
- 260ml o laeth

- Hidlwch y blawd a'r powdr codi mewn bowlen a rhwbiwch

menyn i mewn. Ychwanegwch y siwgr.

- Cymysgwch yr wy a'r llaeth gyda'i gilydd. Gwnewch bant bach yn y cymysgedd sych, yna arllwyswch y cymysgedd wy i mewn iddo. Cymysgwch gyda'i gilydd er mwyn creu toes meddal.



y

Bydd angen olew llysiâu ar gyfer ffrio hefyd.

Ar yr un pryd, gwnewch rai brechdanau jam gyda thair sleisen o fara yr un (brechdan tair haen).

- 1) Torrwch y crystiau i ffwrdd a thorrwch y bara yn sgwariau.
- 2) Rhowch bob brechdan jam yn y cyteu.
- 3) Ffriwch y frechdan mewn cyteu mewn ychydig o olew.
- 4) Ffriwch nes bod y brechdanau yn frown euraid (o'r gorau, mae rhai o fy mrechedanau wedi 'crasu' gormod).



Tynnwch nhw allan, draeniwch unrhyw olew a thaenwch siwgr drostynt.

Dylai fod gennych rai toesenni sgwâr/brechdanau jam wedi'u ffrio. (Nid byrbryd iach mo'r rhain, yn sicr).

Maen nhw'n blasu'n debyg iawn i doesenni (ceisiwch ddychmygu toesen wrth i chi ei bwyta, yn hytrach na brechdan jam wedi'i ffrio!).

www.getoutwiththekids.co.uk



Rhywogaeth y Mis

Madfall y twyni

Lacerta agilis

Mae hon yn rhywogaeth fach o fadfallod a welir ledled Ewrop ac mewn rhannau o Asia. Mae madfall y twyni yn un o dair rhywogaeth yn unig o fadfallod sy'n frodorol i'r DU ynghyd â'r neidr ddefaid â'r fadfall gyffredin.

Mae madfall y twyni yn byw mewn glaswelltir a gweundir a hefyd mewn twyni arfordirol drwy ei chynefin brodorol cyfan sy'n ymestyn o'r Deyrnas Unedig, i'r dwyrain ar draws Ewrop i Fongolia. O fewn y cynefinoedd hyn maent yn gysylltiedig â chlystyrau hŷn, mwy aeddfed o rug a'r moresg dyfnach, clymog. Er gwaethaf eu dosbarthiad eithaf eang, mae poblogaethau o fadfall y twyni wedi mynd yn brin ac maent wedi darford o'r tir mewn rhai rhannau o'u cynefinoedd brodorol.

Mae madfall y twyni yn rhywogaeth gymharol fach, ond "byrdew" sydd fel arfer yn frown golau, gyda marciau tywyllach i lawr y cefn. Fodd bynnag, mae madfallod gwryw yn adnabyddus am y ffordd hynod y maent yn newid lliw, wrth i'r croen newid o frown tywyll i wyrdd llachar yn ystod y tymor paru, er mwyn denu benyw yn haws a chyplu â hi. Y rhain yw'r unig fadfallod ym Mhrydain sy'n dodwy wyau.

Mae madfallod y twyni yn paru ar ddechrau'r haf o fis Mai i fis Mehefin pan fydd patrymau gwyrdd newydd y gwryw yn dechrau ymddangos er mwyn denu a chreu argraff ar gymhares. Mae'r madfallod benyw yn dodwy eu hwyau mewn twyni a gloddir gan y madfallod benyw yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf mewn tywod rhydd lle y cânt eu deori gan yr haul, yn hytrach na'r fam. Mae'r wyau hyn yn deori ymhen tua 1-2 fis yn dibynnu ar amodau'r tywydd. Fel yn achos rhywogaethau eraill o fadfallod, ychydig iawn o ofal a roddir gan y rhieni i'r madfallod bach sy'n annibynnol o oedran cynnar iawn. Mae'r madfallod bach yn debyg iawn i'r madfallod llawn dwf, ond mae eu lliwiau'n llai llachar ac maent yn tyfu i tua 16cm - 20cm o hyd.



Fel yn achos ymlusgiaid eraill, anifail gwaed oer yw madfall y twyni ac felly mae'n rhaid iddi gynhesu ei hun gyntaf cyn y gall hela am fwyd. Mae madfallod y twyni yn treulio oriau'r dydd yn torheulo ar graig o dan haul poeth, sy'n cynhesu eu gwaed a rhoi'r egni iddynt fynd i hela gyda'r hwyr. Mae lliw brown croen madfall y twyni yn ei helpu ei ymguddio pan fydd yn torheulo.

Fel llawer o rywogaethau eraill o fadfallod, mae madfallod y twyni yn anifeiliaid cigysol, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt hela a bwyta anifeiliaid eraill er mwyn goroesi. Prif borthiant madfallod y twyni yw amrywiol anifeiliaid di-asgwrn-cefn, gan gynnwys trychfilod, ceiliogod y rhedyn a chorrod, y maent yn eu gwyllo'n astud gan ddefnyddio eu golwg ardderchog cyn dal yn rymus yn eu pryd o fwyd â'u tafod cryf.

Mae maint bach madfallod y twyni, ynghyd â'u natur arafaid wrth ymgynhesu yn ystod y dydd, yn golygu bod yr anifeiliaid hyn yn darged mawr i ysglyfaethwyr gwancus. Adar, cŵn a chathod yw ysglyfaethwyr mwyaf cyffredin madfall y twyni, ac mae achosion o amharu ar gynefinoedd neu'n eu dinistrio'n llwyr drwy waith dyn yn effeithio arnynt hefyd.

Yn sgil colli cynefinoedd mae'r madfallod hyn wedi cael eu cyfyngu i ardaloedd llai byth erbyn heddiw ac mae poblogaethau o fadfall y twyni ledled Ewrop o dan fygythiad bellach. Er eu bod gynt yn helaeth ac yn gyffredin, mae poblogaethau wedi diflannu dros lawer o hen gynefin y rhywogaeth, gan gynnwys twyni arfordirol, gweundiroedd ardal y Weald, ardal y New Forest a Chymru. Mae madfall y twyni bellach wedi'i chyfyngu i weundiroedd sych de Dorset, de-orllewin Surrey a thwyni tywod glannau Mersi. Mae poblogaethau wedi cael eu hailgyflwyno yn ardal y New Forest, ardal y Weald, de-orllewin Lloegr a Chymru. Mae poblogaeth hirsefydledig newydd yn bresennol ar Ynys Coll, yr Alban. Nid yw'r rhywogaeth yn bresennol yn Iwerddon.

Ystyrir bod madfall y twyni yn un o'r anifeiliaid sydd mewn perygl o ddarford o'r tir yn y gwyllt ac mae'n cael ei diogelu yn y rhan fwyaf o'i chynefin naturiol. Rhywogaeth â Blaenoriaeth o dan UKBAP, Rhywogaeth a Warchodir o dan Atodlen 5 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'n drosedd aflonyddu mewn unrhyw ffordd ar y madfallod hyn, neu eu lladd, eu niweidio neu eu hanafu, achosi difrod i'w cynefin, meddu arnynt, eu gwerthu neu fasnachu ynddynt mewn unrhyw ffordd.

www.a-z-animals.com

www.bbc.co.uk

www.herpetofauna.co.uk

Tirwedd y Mis

Biomau

Mathau cyffredinol o ecosystemau yw biomau

Mae biomau yn ardaloedd ecolegol mawr iawn ar wyneb y ddaear, gyda ffawna a fflora (anifeiliaid a phlanhigion) sy'n ymaddasu at eu hamgylchedd.

Diffinnir biomau yn aml gan ffactorau anfiotig megis hinsawdd, tirwedd, daeareg, priddoedd a llystyfiant.

Mae'n ardal fawr ar wyneb y Ddaear a ddiffinnir gan y mathau o anifeiliaid a phlanhigion sy'n byw yno.

Gall biom gael ei ddiffinio'n rhannol gan y patrymau hinsawdd lleol.

Gall fod hefyd fwy nag un math o fïom o fewn parth hinsawdd mwy.


NID ecosystem yw biom, er y gall edrych yn debyg i ecosystem enfawr ar un ystyr. Gellir gweld llawer o unedau o ecosystemau o fewn un biom.

Os edrychwch yn fanylach, byddwch yn sylwi bod planhigion neu anifeiliaid mewn unrhyw un o'r biomau wedi ymaddasu er mwyn ei gwneud yn bosibl iddynt fodoli yn yr ardal honno.

Ceir pum prif gategori o fïomau ar y ddaear.

Yn y pum biom hyn, ceir llawer o is-fïomau, ac o dan y rhain bydd llawer mwy o ecosystemau penodol iawn.

- Biomau'r Anialdiroedd: Mae'r rhain yn anialdiroedd poeth a sych, anialdiroedd lled-ddiffaith, anialdiroedd arfordirol ac anialdiroedd oer.
- Y Biomau Dyfrol: Mae'r biomau dyfrol yn cael eu rhannu'n ddau, biomau dŵr croyw (llynnoedd a phyllau, afonydd a nentydd, gwlyptiroedd) a biomau morol (cefnforoedd, creigresi cwrel a morydau).



- Biomau'r Coedwigoedd: Ceir tri phrif fïom sy'n rhan o fïomau'r coedwigoedd, sef fforestydd glaw trofannol, tymherus a boreal.
- Biomau'r Glaswelltiroedd: Ceir dau brif fath o fïom glaswelltir: glaswelltiroedd trofannol a glaswelltiroedd tymherus.
- Biomau'r Twndrâu: Ceir dau brif fath o fïom twndra—twndra yr artig a thwndra'r alpau.

Mae biomau yn chwarae rhan hollbwysig o ran cynnal bywyd ar y ddaear. Er enghraifft, mae'r biom dyfrol yn gartref i filiynau o rywogaethau o bysgod ac yn darddle'r cylch dŵr. Mae hefyd yn chwarae rhan bwysig iawn o ran ffurfio'r hinsawdd. Mae'r biomau daearol yn darparu bwydydd, yn cyfoethogi'r awyr ag ocsigen ac yn amsugno carbon deuocsid a nwyon drwg eraill o'r awyr. Maent hefyd yn helpu i reoleiddio hinsawdd ac ati.

<http://eschooltoday.com>

<http://www.geography4kids.com>

Cyrsiau:

Diwrnod Rhwydweithio a Rhannu Sgiliau DAAC Caerdydd

15 Mai 2015, 2pm – 6.30pm - Canolfan Addysg Parc Bute, Caerdydd
Ymunwch â ni am gyn lleied neu am gymaint o amser ag y gallwch!

Cyfle i rwydweithio ag addysgwyr eraill a darparwyr gweithgareddau awyr agored i ddysgu sgiliau a syniadau newydd. Gweithdai gan Out to Learn Willow, Pontcanna Allotments a Cyfoeth Naturiol Cymru. Hefyd Adrodd Chwedlau yng nghwmni Cath Little, sesiynau rhannu sgiliau gan staff ysgolion eraill Caerdydd a llawer iawn mwy. Nid oes tâl am y digwyddiad hwn ond mae'n hanfodol archebu lle. Bydd costau parcio yn cael eu hadalu. Croeso i bawb, o Gaerdydd a thu hwnt, pa un ai ydych yn aelod DAAC ai peidio!

Cysylltwch â: sheena.oleary@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyfleon

Ymunwch â ni am daith astudio ddeuddydd yn yr Alban gan gynnwys Gardd Blant Natur Auchlone sy'n adnabyddus yn rhyngwladol...

15 a 16 Ebrill 2015 (Rhan 1) dau ddiwrnod llawn i'w gadarnhau (Rhan 2) ` 1 diwrnod DPP yn seiliedig ar athroniaeth Auchlone. A oes gennych ddi-ddordeb mewn darparu amgylchedd dysgu awyr agored cyfoethog a naturiol a fydd yn cynnig risg a her? Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n awyddus i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o weithio o fewn yr amgylchedd awyr agored. Bydd yn rhoi cyfle i ymarferwyr ymweld â Gardd Blant Natur Auchlone a dysgu gan yr hyfforddwyr 'Mindstretchers' am ei hymagwedd tuag at ddysgu ac addysgu. Mae'n rhaid i ymarferwyr fod yn barod i fynychu'r sesiynau dilynol a chwblhau astudiaeth achos ymchwil weithredu fach yn eu lleoliad eu hunain. Mae'r cwrs hwn yn addas i unrhyw un sy'n gweithio yn y Blynnyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen. COST: £650

Cysylltwch ag: info@cyfleon.co.uk

Dragonfly Creations

Cynhelir cyrsiau yn ein gweithdy newydd yng nghoedwig Gŵyr - Fferm Gelli Hir, y Crwys, Abertawe

2, 3 a 4 Mai - Gwaith coed gwyrdd a Dodrefn Crefftwr

30 a 31 Mai - Cyflwyniad i Waith Coed Gwyrdd

22 a 23 Awst - Cyflwyniad i Waith Coed Gwyrdd

19 a 22 Medi - Gwaith Coed Gwyrdd, Dodrefn Crefftwr ac Adeiladu Mainc Waith Naddu

Mae'r dosbarthiadau yn agored i bawb sydd â diddordeb, hen ac ifanc, y rhai sy'n dechrau neu'r rhai sydd am gael mwy o brofiad. Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau diddorol mewn gwaith coed gwyrdd ar ein fferm a safle coetir gwledig a heddychlon ar Benrhyn Gŵyr ger Abertawe. Wrth i chi ddysgu crefft gwaith coed gwyrdd rydym yn eich annog i feithrin perthynas agos â'r amgylchedd naturiol.

Cysylltwch â: <http://www.dragonflycreations.co.uk>

Canolfan Natur Gogledd-ddwyrain Cymru

Hyfforddiant Sylfaenol mewn Amffibiaid - 25 Ebrill, 2015 2:30-11pm

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu ecoleg sylfaenol ac adnabod amffibiaid gan gynnwys madfallod y dŵr a llyffantod y twyni. Bydd y prynhawn yn cynnwys gweithdai ac anerchiadau dan do ac wedyn daith o amgylch y safle er mwyn adnabod rhywogaethau, tynnu sylw at arfer cadwraeth da, a deddfwriaeth. Bydd sesiwn y nos yn rhoi cyfle da i ymarfer technegau arolygu ac adnabod amffibiaid yn y tywyllwch. Bydd angen i gyfranogwyr ddod ag esgidiau glaw, a bydd angen iddynt sicrhau eu bod wedi glanhau unrhyw laid a gweddillion sydd arnynt a hynny am resymau bioddiogelwch. Darperir lluniaeth ond dylech ddod â byrbrydau a gwisgo dillad cynnes. Bydd pryd o fwyd gyda'r nos, sy'n rhan o bris y cwrs.

Cynhelir y cwrs yn: Liverpool Bay Operating Company, Y Parlwr Du, Ffordd yr Orsaf, Talacre, Sir y Fflint, CH8 9RD.

Cost: £30

Cysylltwch â: KWilson@newwildlife.org.uk

Green City

Compostio a Meithrin Abwydod – 8 Ebrill, 6.30-9pm, £15

Darganfyddwch wyddoniaeth ac ymarfer compostio llwyddiannus, sut i gynnal abwydfa iach a sut i ddatrys problemau compost cyffredin. Rhowch gynnig arni yn y gweithdy hanner diwrnod hwn lle y byddwch yn dysgu sut i leoli a sefydlu bin compost ac abwydfa, sut i atal a datrys problemau cyffredin, sut i ddefnyddio'ch compost a gwneud eich 'te abwydod' eich hun i fynd adref ag ef.

Cosmetics from the Beehive – 30 Ebrill, 6.30-9.30pm, £30

Darganfyddwch y lluo o gynhyrchion gwych a gesglir o'r cwch gwenyn gan gynnwys cŵyr gwenyn, glud gwenyn, pail a mêl. Yn y gweithdy ymarferol iawn hwn gyda Bee Fruitful byddwch yn dysgu sut a pham mae gwenyn yn casglu ac yn cynhyrchu'r cynhyrchion hyn, sut y cânt eu cynaeafu a sut y gallwn eu defnyddio mewn canhwylau, colur, polish a'r rheoliadau sydd ynghlwm wrth eu gwerthu. Yn ail hanner y gweithdy, byddwch yn dysgu sut i wneud eich eli dwylo hyfryd eich hun a phelenni baddon mêl i fynd adref â hwy.



Unusual edibles – 20 Mai, 6.30-9pm, £20

Gall tyfu'ch ffrwythau a'ch llysiau eich hun fod yn daith lawer mwy diddorol nag y meddyliech erioed – a gall eich gardd gynnig toreth o fwyd ond edrych yn wych o hyd. Yn y gweithdy hwn bydd ein tiwtor Eirlys Rhiannon o Eating our Gardens yn cyflwyno lluo o bosibiliadau cyffrous a phethau bwytadwy anarferol i chi. Anghofiwch am y llysiau a welwch o hyd yn yr archfarchnadoedd, a mentrwch i fyd blasau newydd a rhyfeddodau parhaol yr ardd.

Cysylltwch â: www.greencityevents.co.uk

Hyfforddiant ar-lein mewn Rhywogaethau Anffordorol

Mae hyfforddiant ar-lein am ddim mewn bioddiogelwch ar gael bellach drwy wefan e-ddysgu'r Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Anffordorol (NNSS). Mae'r e-ddysgu yn seiliedig ar becyn a ddatblygwyd eisoes gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae'n ddelfrydol i'w ddefnyddio gan unrhyw un sy'n gweithio yn y maes, gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr. Er mwyn cymryd rhan yn yr hyfforddiant bydd yn rhaid i chi gofrestru â'r wefan yn gyntaf. Ar ôl cofrestru, gallwch sefyll prawf a lawrlwytho tystiolaeth ar ôl i chi lwyddo.

Cysylltwch â: <http://www.nonnativespecies.org/elearning>

Newyddion Eraill:

Yr Urdd - Ysgoloriaeth Geraint George

Nod yr ysgoloriaeth yw rhoi cyfle i unigolion 18-25 oed feithrin eu sgiliau cyfathrebu a gall helpu pobl yng Nghymru a thu hwnt i werthfawrogi'r byd naturiol a deall y ffactorau sy'n effeithio arno. Gwahoddir cystadleuwyr i anfon gwaith cyfathrebu, mewn unrhyw gyfrwng ac ar unrhyw fater amgylcheddol sy'n berthnasol i Gymru.

Bydd yr enillydd yn dewis un o ddau opsiwn:

- Ymweliad â Pharc Cenedlaethol Trigav yn Slofenia lle y caiff gyfle i ddysgu am y parc a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

- Mynychu cynhadledd EUROPARC a gynhelir mewn rhan wahanol o Ewrop bob blwyddyn, lle y bydd yn dysgu am y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn gwledydd gwahanol a safleoedd ymweld.

Hefyd, bydd yr enillydd yn cael cyfle i feithrin cysylltiad cryf â mentor ym Mharc Cenedlaethol Eryri neu Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn helpu i ddatblygu gyrfa ym maes yr amgylchedd. Caiff gwaith enillydd yr ysgoloriaeth a thri chystadleuwr arall sydd wedi cyrraedd y brig ei arddangos ar wefan Parc Cenedlaethol Eryri a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cysylltwch â: <http://www.urdd.cymru/en/eisteddfod/competitions/geraint-george-scholarship>

Ysgol Goedwig Abertawe Castell-nedd Port Talbot – Cyfle swydd

Swyddog Cymorth Prosiect Profiadol Rhan Amser

Mae ei angen i roi cymorth gweinyddol i Ysgol Goedwig, Abertawe Castell-nedd Port Talbot, sef sefydliad elusennol sy'n cynnig profiad dysgu a hamdden arloesol i blant mewn lleoliadau coetir a naturiol. 20 awr yr wythnos: oriau hyblyg, dros 4/5 diwrnod yr wythnos, dydd Llun i ddydd Gwener

Cyflog £16,054 pro rata - Dyddiad cau: Dydd Llun 13 Ebrill 2015

Cysylltwch ag: info@forestschooolsnpt.org.uk

Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2015 – Daw enwebiadau i ben 10 Ebrill

A wyddoch am unigolyn neu grŵp ysbrydoledig sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w ardal/hardal neu fywydau pobl eraill? Os felly, beth am eu henwebu'n Wirfoddolwr y Flwyddyn Cymru? Dyma'ch cyfle i sicrhau bod y bobl hynod hyn yn cael y gydnabyddiaeth a haeddant.

Ceir chwe chategori ar gyfer enwebiadau:

- oedolyn (25 mlwydd oedd a throsodd)
- gwirfoddolwr ifanc (o dan 25 mlwydd oed)
- gwirfoddolwr 'gwyrdd' (unigolyn o unrhyw oedran sy'n gwirfoddoli â sefydliad neu brosiect amgylcheddol)
- ymddiriedolwr
- grwpiau (dau neu fwy o unigolion, naill ai grŵp anffurfiol neu sefydliad wedi'i gyfansoddi'n ffurfiol)
- rhyngwladol (i unigolion sydd wedi gwirfoddoli â phartneriaid/sefydliadau rhyngwladol yng Nghymru)

Cysylltwch â: <http://www.wcva.org.uk/what-we-do/celebrating-the-sector/wales-volunteer-of-the-year-awards/>

Cysylltu â Ni:

Karen Clarke

Sheena O'Leary

Cydgysylltydd Cenedlaethol DAAC
Y Tîm Addysg
Cyfoeth Naturiol Cymru
0300 068 0300 / 07721 302667

Swyddog Cymorth Cydgysylltydd Cenedlaethol DAAC
Y Tîm Addysg
Cyfoeth Naturiol Cymru
0300 068 0300 / 07778893379

outdoorlearningwales@naturalresourceswales.gov.uk

Cyfraniadau: *Dylech gyflwyno awgrymiadau ar gyfer cynnwys neu eitemau o ddiddordeb ar gyfer newyddlenni sydd i'w cyhoeddi erbyn yr 20^{fed} diwrnod o'r mis. Mae pob eitem a gyflwynir yn amodol ar gymeradwyaeth y Cydgysylltydd.*

Ymwadiad: *Nid yw Dysgu yn yr Awyr Agored Cymru na Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am gynnwys, safon na dibynadwyedd y gwefannau, cyrsiau na'r adnoddau y darperir dolenni iddynt o'r newyddlen hon a ddaw o ffynonellau allanol. Ni ddylid ystyried bod rhestru dolenni yn gymeradwyaeth o unrhyw fath. Ni allwn warantu y bydd y dolenni hyn yn gweithio bob amser ac nid oes gennym unrhyw reolaeth dros argaeledd tudalennau y darperir dolenni iddynt.*

Datdanysgrifio: *Os nad ydych yn dymuno bod yn rhan o OLW All E-Group gallwch ddatdanysgrifio drwy anfon e-bost i sarah.jones@naturalresourceswales.gov.uk*